Creu Cymru




# Perfformiad y sefydliad

# Perfformiad y sefydliad

Dros y 3 blynedd diwethaf rydym wedi:

## Trawsnewid

Rydym wedi ehangu'r aelodaeth i gynnwys cwmnïau cynhyrchu ac unigolion sydd wedi arwain at dwf o 75% mewn aelodaeth, gan fynd o 40 i 74 o aelodau.

Rydym wedi cynyddu incwm o aelodaeth drwy ffioedd aelodaeth, o £15,800 y flwyddyn i £41,500.

Mae ein cyllid wedi ein galluogi i sicrhau cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau gan gynnwys £8,750 gan Sefydliad Moondance, £10,000 gan Sefydliad Foyle a £3,500 mewn nawdd corfforaethol.

Mae nifer y deiliaid cerdyn Hynt wedi cynyddu 3637 (y flwyddyn ariannol hon) neu 4311 yn 2022 (blwyddyn galendr Ion-Rhag).

Mae ein staff, ein bwrdd a'n haelodau wedi cael eu cyfweld am faterion sy'n wynebu'r sector ac yn seiliedig ar ymgyrchoedd rydyn ni wedi'u creu.

Rydyn ni wedi cael sylw yn y Western Mail, WM Magazine, BBC One Wales News, ITV Wales News, The Stage, Arts Professional, S4C, Golwg, BBC Radio Wales Arts Show a Breakfast Show, Arts Scene in Wales a Get the Chance.

Rydym wedi cynrychioli aelodau mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at:

- Newid o fod yn ddiwydiant digwyddiadau i adloniant, a oedd yn golygu bod gan theatrau fwy o gapasiti gan eu bod yn yr un categori â sinemâu.
- Esbonio a dosbarthu ynghylch canllawiau a gwybodaeth.
- Trosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru i'r aelodau.
- Lobïo am ragor o gymorth ariannol.
- Ymgynghori â ni ar strategaeth newydd Digwyddiadau Cymru
- Rydym wedi ymgynghori ar ddatblygu Strategaeth Diwylliant Llywodraeth Cymru ac wedi hwyluso sesiwn gydag aelodau Creu Cymru.


Rydym wedi mynychu cyfarfodydd o amgylch y bwrdd gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar y Theatr ac mae Louise, ein Cyfarwyddwr, yn aelod o Fwrdd UK Theatre, gan sicrhau bod llais y sector yng Nghymru yn cael ei gynrychioli.

Rydyn ni wedi rhoi cyflwyniad yng Nghynhadledd AMA, From Access to Inclusion, Cynhadledd Digwyddiadau Cymru a Beth Nesaf? Cymru.

Roedden ni hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol fel rhan o'i ymchwiliad undydd i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda chyrff theatr ledled y Deyrnas Unedig fel UK Theatre, Theatres Trust, ABTT, One Dance UK, FST a Theatre NI ar gynlluniau ac eirioli ar y cyd.

> Fe wnaethom ail-frandio yn 2021 er mwyn adlewyrchu ein presenoldeb deinamig yn y sector celfyddydau perfformio yng Nghymru yn well.







## Cyfiawnder i'r Hinsawdd

O ganlyniad i bandemig Covid-19, fe wnaethom symud i gyfarfodydd ar-lein ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgarwch. Rydym wedi parhau i weithio mewn ffordd hybrid, gan arbed costau ac arbed o ran yr effaith ar yr amgylchedd i staff ac aelodau. Roedd hyn hefyd yn caniatáu i fwy o aelodau fod yn bresennol.

Rydyn ni'n annog rhannu ceir a dulliau trafnidiaeth cynaliadwy ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd a digwyddiadau wyneb yn wyneb eraill ac rydyn ni'n cynnig cymhellion i'r rheini sy'n dod i'n cynhadledd flynyddol os yw pobl yn gallu teithio mewn ffordd gynaliadwy.

Buom yn gweithio gyda Paddy Dillon a'r Theatres Trust ar greu Llyfr Gwyrdd y Theatr ac yn hwyluso sesiynau ymgynghori gydag aelodau.

Rydym wedi bod yn sefydliad gweithio gartref ers 2010. Mae hyn yn dileu'r angen am gymudo dyddiol, sydd yn ei dro yn lleihau faint o allyriadau $CO_2$ y mae pob aelod staff yn eu cynhyrchu. Rydym hefyd yn sefydliad ysgafn o ran defnyddio papur.

## Creadigrwydd

Rydyn ni wedi cynnal pum caffi yn seiliedig ar bynciau'r Contract Diwylliannol – Y Potensial i Dyfu, Amrywiaeth yn y Gweithlu a'r Bwrdd, Cyflog Teg, Cynnydd wrth Leihau Ôl-troed Carbon a Hyrwyddo Iechyd. Fe wnaethon ni wahodd arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd i siarad ac ateb cwestiynau. Roedd y rhain yn cynnwys Inc Arts, Shelter Cymru, Creative Freedom, Museum Detox, Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, Culture&, Chwarae Teg, TUC Cymru, Jerwood Arts, Cynnal Cymru, Theatres Trust, Julie's Bicycle, Prifysgol Bangor, Backstage Niche, NTW, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Indigo a Brixton House.

Yn dilyn hyn, fe wnaethom greu adnoddau er mwyn i'n haelodau gael mwy o wybodaeth am y pynciau a drafodwyd.

Buom yn gweithio gydag aelodau a'r sector ehangach ar yr ymgyrch #WeMissYou / #HiraethAmdanat – gan dynnu sylw at flwyddyn lle bu ein theatrau ar gau. Cafodd yr ymgyrch gefnogaeth gan y cyhoedd ac wynebau cyfarwydd ar-lein. Rhoddwyd sylw i'r ymgyrch gan Wales Online Arts, Dros Frecwast, Radio Cymru, Newyddion S4C, ITV Wales, BBC Cymru Fyw, Welsh Arts Review, Wales Today, BBC One Wales, The National a The Leader.

Cynhaliasom gynhadledd ar-lein lwyddiannus, gyda dros 120 o bobl yn bresennol, yng nghwmni **Alan Lane** (Slung Low), **Alun Saunders** (Actor / Awdur / Perfformiwr Drag), **Bryan Joseph Lee** (Public Theater NYC / Back 2 Culture), **Daniel Evans** (Cichester Festival Theatre), **Kate Fox** (MIF), **Lianne Weaver** (Beam Training), **Lisbeth McLean** (Menter Iaith Merthyr Tudful), **Sita Thomas** (Common Wealth Theatre) a **Steffan Donnelly** (Actor / Awdur / Tasglu Llawrydd Cymru) gyda chynnwys ychwanegol ar gael ar-lein ar ôl y digwyddiad.

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol 2022 ym mis Mai 2022 yn y Pierhead, Caerdydd, dan nawdd Dawn Bowden AS.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys: **Sita Thomas** (Cyfarwyddwr Artistig Fio), **Mathew Russell** (Cyfarwyddwr Artistig Queen's Theatre), **Dawn Bowden** (AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon), **Jasmine Okai** (Cynhyrchydd, Fio), **Connor Allen** (Actor, awdur a Bardd Plant Cymru), **Christian Paterson** (Grand Ambition), **James Doyle-Roberts** (Citrus Arts / Hopkinstown Hall) a **Lisbeth McLean** a **Geinor Styles** (Canolfan Soar / Theatr na nÓg / Consortiwm Cymraeg), ac roedd dros 80 o bobl yn bresennol.






Dyfarnwyd Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie CGGC i Louise yn 2022. Nod y bwrsari yw helpu arweinwyr yn y sector gwirfoddol i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth entrepreneuraidd. Defnyddiodd Louise y fwrsariaeth i gynnal ymweliadau dysgu â sefydliadau tebyg sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau perfformio ar draws gwahanol rannau o'r DU.

Gwnaethom gyllido naw swydd lawrydd i weithio gydag aelod-leoliadau a chefnogi eu sefydliad yn ystod y cyfnod hwn.

Crëwyd dogfen adnoddau yn ystod y Pandemig i amlinellu sefyllfa pob aelod-leoliad, gan ei gwneud yn haws i bartneriaid allanol megis cwmnïau cynhyrchu ddeall pob sefyllfa unigol.

## Yr Iaith Gymraeg

Fe wnaethom ddatblygu ein gwefan a sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynrychioli'n gyfartal. Mae gennym gyfieithwyr ym mhob cyfarfod a digwyddiad o bwys i aelodau. Mae gennym siaradwyr Cymraeg yn ein cynadleddau ac mae cyfieithiad byw ar gael.

Croesewir defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol a chaiff ei defnyddio mewn cyfathrebu mewnol. O'r tri aelod staff presennol, mae un yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, a dau yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Rhan o'n gwaith gyda UK Theatre yw sicrhau bod rhaglenni a mentrau cenedlaethol ar gael yn y ddwy iaith (megis 10 Egwyddor Mannau Gwaith Diogel a Chynhwysol).

## Meithrin Talent

Rydym wedi darparu hyfforddiant i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau, gan gynnwys Lles, Gwytnwch i Arweinwyr, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Ymarfer Adferol, Rheoli Covid yn Ddiogel, Ffrydio Byw, Cyfryngau Cymdeithasol, Ail-ddenu cynulleidfaoedd, Rhagfarn Ddiarwybod, Ymwybyddiaeth o Fyddardod, Gwneud eich lleoliad neu ddigwyddiad yn un sy'n groesawgar i bobl ddall a rhannol ddall, Allyship in the Workplace, Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth o LHDTC+ a Llythrennedd o ran Carbon.

Buom yn gweithio gyda CGGC i redeg cymhorthfa bolisi i aelodau.

Comisiynwyd Lisa Baxter o Experience Business i redeg dau brosiect hyfforddi dwys i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau (Public Value Accelerator – Igniting fresh thinking and practice a Creating sustainable audience value post-Covid).

Rydym wedi gweithio gyda Chyfarwyddwyr Artistig, Prif Weithredwyr, Technegwyr, Rhaglenwyr, Cynhyrchwyr, Artistiaid, Gweithwyr Marchnata, Blaen Tŷ, Rheolwyr Gweithrediadau, Glanhawyr a Staff Swyddfeydd Tocynnau.

Datblygwyd pecynnau cymorth ar gyfer ailagor y gallai lleoliadau eu defnyddio, gan gynnwys asesiadau risg a templedi eraill.

Darparwyd ymweliadau safle gan weithwyr proffesiynol i roi cyngor ar weithio'n ddiogel o ran Covid.

Rydym wedi creu fideos hyfforddiant 'Ar-alw' y gall aelodau eu gwylio yn eu hamser eu hunain, naill ai fel tîm neu fel unigolion, beth bynnag sy'n addas i batrymau gweithio a dysgu.

Bydd y fideos hefyd yn darparu hyfforddiant rhagarweiniol sy'n arwain at hyfforddiant byw mwy manwl yn y dyfodol.

Mae'r pynciau'n cynnwys:

- 'Cyflwyniad i Wasanaeth i Gwsmeriaid' gyda Tansy Rogerson, Digwyddiadau Armadillo
- 'Croeso cynnes i gynulleidfaoedd ag anghenion ychwanegol' gyda Hijinx
- 'Terminoleg Gwrth-hiliaeth' gyda Everyday Racism
- 'Cyflwyniad i hunanofal' gyda Beam Training
- 'Goresgyn Pryderon' gyda Beam Training
- 'Rhoi Hwb i Greadigrwydd' gyda Beam Training

Creu cyfleoedd rhwydweithio i aelodau ddod at ei gilydd, rhannu pryderon a rhannu syniadau ar gyfer cydweithio neu brosiectau yn y dyfodol.

Drwy Hynt rydyn ni wedi ffurfio partneriaeth ar brosiect Cysylltu a Ffynnu Breaking the Box gyda Taking Flight yn bartner arweiniol. Un o brif amcanion y prosiect hwn oedd meithrin talent fyddar, anabl a niwrowahanol oddi ar y llwyfan yng Nghymru.

Mae ein gohebiaeth i aelodau yn cynnwys cylchlythyr misol gyda diweddariadau am y sector, cylchlythyr teithio gyda chyfleoedd rhaglennu posibl a chylchlythyr cyfleoedd hyfforddi. Rydym hefyd yn diweddaru aelodau'n rheolaidd drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Rydyn ni wedi cefnogi aelodau gyda bwrsariaethau i fynychu digwyddiadau a pherfformiadau fel Cynhadledd AMA, Diwrnod Digidol AMA, GDIF, Gweithdy Butoh, gweithdy gyda'r artist perfformio Bryony Kimmings a Chynhadledd y Theatres Trust.

## Ehangu Ymgysylltiad

Mae nifer aelodau Hynt (wedi cynyddu o 18,587 ddiwedd mis Rhagfyr 2019 i 25,794 ddiwedd mis Rhagfyr 2022).

Rydym wedi cynyddu aelodaeth canolfannau Hynt ac wedi cyflwyno Aelodaeth Gyswllt Hynt yn awr gan gynnwys aelodau newydd ICC Cymru, Gŵyl Nadolig Castell Caerdydd, Little Wander, Canolfan Gelfyddydau Muni ac Arena Abertawe.

Rydym wedi bod yn cynghori ACE a rhanddeiliaid eraill wrth iddynt ddatblygu'r cynllun mynediad cenedlaethol. Rydym ar ganol y gwaith o gynnal adroddiad effaith Hynt ac rydym yn dechrau ehangu'r cynllun i gynnwys aelodau nad ydynt yn seiliedig ar le.

Rydym wedi darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod, dan arweiniad y perfformiwr Byddar a chreadigol Stephanie Back, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Artistig Taking Flight, Gwneud eich lleoliad neu ddigwyddiad yn un sy'n groesawgar i bobl ddall a rhannol ddall, dan arweiniad Tafsila Khan, gyda chefnogaeth Ioan Gwyn a Symposia mewn partneriaeth â sefydliadau gan gynnwys Taking Flight a Chelfyddydau Anabledd Cymru.

Rydym wedi bod yn rhan o'r Cynghrair Mynediad i Gynulleidfaoedd sy'n gweithredu ledled y Deyrnas Unedig, gan wneud yn siŵr bod mynediad wrth galon y cynlluniau ailagor ar ôl Covid.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â UK Theatre ac Inc Arts UK ar y gynhadledd gwrth-hiliaeth 'Speak, Listen, Reset, Heal' ('Siarad, Gwrando, Ailosodi, Gwella').

Gan gydnabod hiliaeth systemig a strwythurol yn y celfyddydau perfformio, roedd y gynhadledd yn ceisio gwneud newidiadau gwirioneddol drwy ddeialog dilys, adeiladol ac uniongyrchol rhwng uwch arweinwyr a'r gweithlu, artistiaid a sefydliadau amrywiol sy'n rhyngweithio â nhw.

Yn dilyn y gynhadledd, llofnodwyd cytundeb partneriaeth gydag Inc Arts i barhau â'r gwaith pwysig hwn gydag aelodau yng Nghymru.

Buom yn cefnogi ac yn cynghori Ballet Cymru ar eu prosiect i gynyddu mynediad drwy gydol eu perfformiad o 'DREAM'.

Buom yn gweithio gyda UK Theatre i gefnogi'r gwaith o gyflwyno 10 Egwyddor Mannau Gwaith Diogel a Chynhwysol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg.








**Creu Cymru**
PO Box 242
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 9AX

**Ffôn:** 01970 822 222
**Ebost:** post@creucymru.com
**creucymru.com**